# Dad, dy gariad yn glir ddisgleiria

## Caneuon Ffydd: Rhif 228

Dad, dy gariad yn glir ddisgleiria,
trech na'r t'wyllwch, yn glir ddisgleiria;
Iesu, goleuni'r byd, cofia ninnau,
ti yw'r gwir a'n rhyddha o'n cadwynau:
Grist, clyw ein cri, goleua ni.

Air disglair Duw,
dyro d'olau i Gymru heddiw,
tyrd, Ysbryd Glân,
rho dy dân i ni:
rhed, afon gras,
taena gariad ar draws y gwledydd,
dyro dy air
a goleuni a fydd.

Dof o'th flaen di, O Arglwydd sanctaidd,
o'r cysgodion i'th olau euraidd;
gwaed y groes ddaw â mi i'r goleuni,
chwilia fi a glanha fi o'm bryntni:
Grist, clyw fy nghri, goleua fi.

Er mor danbaid yw dy ddisgleirdeb,
ni fydd raid i mi guddio f'ŵyneb;
a phob dydd wrth im syllu a syllu
daw fy mywyd yn ddrych i'th oleuni,
gwir olau gwiw, gair disglair Duw.

GRAHAM KENDRICK
*cyf.* CASI JONES

**MYFYRDOD**

Bu tipyn o 'fynd' ar yr emyn hwn yn ystod y degawd diwethaf, a hynny yn bennaf oherwydd y dôn fywiog sydd gan y cyfansoddwr Cristnogol cynhyrchiol Graham Kendrick, a champwaith Casi Jones yn ei chyfieithiad o'i eiriau. Bellach, ar ben y thema gref o oleuni a thywyllwch a geir trwy'r emyn, fe geir hefyd erfyniad dros Gymru yn y cytgan. Does dim amheuaeth gennyf i nad ydy emyn fel hwn

yn gymorth nerthol iawn inni weddïo ac erfyn dros ein gwlad. Mae'n codi dyhead ynom ni yn wir am weld Cymru'n cael ei goleuo gan Iesu Goleuni'r Byd, ac am i'r Ysbryd Glân roi ei dân i ni.

Pan ysgydwyd Cymru ddiwethaf gan ddiwygiad nerthol ym 1904–5, fe fu'r hyn a ddigwyddodd yma yn foddion i danio gwledydd eraill yn eu cariad at Grist hefyd. Nid yw'r cytgan yma yn gwneud dim llai na gofyn i hyn ddigwydd eto: 'rhed, afon gras, taena gariad ar draws y gwledydd'. Dyma'r afon sydd i lifo oddi wrth Dduw ei hun yn ôl gweledigaeth Eseciel (pennod 47), a 'bydd popeth yn byw lle llifa'r afon' (adn. 9). Efallai'n wir fod Cymru wedi syrthio'n bell iawn oddi wrth y sefyllfa arbennig yr oedd hi ynddi'n ysbrydol gan mlynedd yn ôl, ac nad oes ganddi fawr i'w gynnig i'r byd yn ehangach, ond, o dan law Duw a dylanwad ei Ysbryd Glân, fe ellir trawsnewid cenedl, a gall y genedl honno fod yn fendith i genhedloedd eraill.

Mae thema'r goleuni i'w gael yn gyson trwy'r Beibl, a Casi Jones yma yn ein hatgoffa bod y Gair hwnnw ei hun yn un llawn goleuni ac yn 'Air disglair Duw': 'Y mae dy air yn llusern i'm troed, ac yn oleuni i'm llwybr', meddai'r Salmydd (Salm 119:105). Ond er mwyn gweld a chydnabod Duw fel goleuni, mae'n rhaid inni hefyd gydnabod bodolaeth y tywyllwch, neu fel arall does dim i'w oleuo: 'goleuni yw Duw, ac nid oes ynddo ef ddim tywyllwch' (1 Ioan 1:5).

Gorfoleddwn yn yr emyn fod y 'goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch, ac nid yw'r tywyllwch wedi ei drechu ef' (Ioan 1:5). Y mae'r diafol a holl bwerau'r tywyllwch wedi eu trechu gan Iesu ar y groes, a 'gwaed y groes ddaw â mi i'r goleuni'. Nid oes gan y tywyllwch ddim gafael bellach ar 'bobl y goleuni' (1 Thes. 5:5). Ond cawsom ein cipio 'o afael y tywyllwch a'n trosglwyddo i deyrnas ei annwyl Fab' (Col. 1:13). Cawn hanes pêl-droedwyr heddiw yn cael eu trosglwyddo am brisiau aruthrol i chwarae i dîm arall; yn yr un modd y cawsom ni ein symud a'n trosglwyddo o dîm y tywyllwch i dîm y goleuni, a hynny am y pris aruthrol a dalwyd amdanom yn aberth Crist drosom ar y groes.

## GWEDDI

Boed i'th oleuni di dreiddio trwy fy mywyd yn llwyr, Arglwydd, a helpa fi i weld bod y goleuni hwnnw yn drech na'r tywyllwch. Gad i mi garu a cheisio dy oleuni yn fwy na dim arall. O am gael bod yn ddrych gloyw i ogoniant dy oleuni di, Arglwydd Iesu. Maddau i mi bob bai, a gwna fi yn wir yn debyg i ti dy hun. Amen.